Cwmni/Sefydliad **Pact**

Cyflwyniad

1) Pact yw'r gymdeithas fasnach sy'n cynrychioli buddiannau masnachol y sector cynhyrchu annibynnol. Mae gyda ni dros 700 o gwmnïau drwy Brydain yn aelodau, cwmnïau sy'n creu a dosbarthu cynnwys teledu, ffilm ac aml-gyfrwng.

2) Mae'r sector cynhyrchu annibynnol yn tyfu'n gyflym. Ar hyn o bryd, mae'n creu £1.28 biliwn mewn refeniw teledu yn flynyddol. Ar gyfartaledd mae hyn wedi tyfu gan 9% bob blwyddyn ers 1998, ac fe ragwelir y bydd yn tyfu gan 7% bob blwyddyn tan 2010. Mae cynnyrch i blant, fodd bynnag, yn wynebu bygythiad, wrth i raglenni gwasanaeth cyhoeddus gael eu gwasgu oherwydd cwymp mewn arian hysbysebu.

Ymateb Pact i ymgynghoriad S4C ar sianel newydd i blant

Y bygythiad i raglenni gwasanaeth cyhoeddus i blant

1) Mae bygythiad i raglenni gwasanaeth cyhoeddus i blant drwy Brydain. Mae Ofcom wedi rhybuddio yn gyhoeddus, fel rhan o'i ymchwiliad i raglenni plant:

"Mae tystiolaeth yn dangos yn glir fod bygythiad i ddyfodol rhaglenni o safon uchel o Brydain i blant."[1]

2) Ar sail ffigurau cynnar o adolygiad Ofcom ac ar sail ein hamcangyfrifon ni am ITV, mae Pact o'r farn fod buddsoddiad mewn rhaglenni Saesneg i blant, wedi'u cynhyrchu ym Mhrydain, ar draws pob darlledwr, wedi gostwng gan 30% mewn termau real ers 1998.[2] Mae hyn yn cymryd ystyriaeth o'r cynnydd mewn buddsoddiad gan y BBC ers sefydlu ei sianeli digidol newydd yn 2002, a'r buddsoddiad gan nifer uchel o sianeli digidol cêbl a lloeren sy wedi ymddangos dros y blynyddoedd diwethaf.

3) Yn ogystal â chwymp yn y buddsoddiad, mae ffynhonnell yr ariannu wedi newid yn ddirfawr hefyd. Ar un adeg, un ffynhonnell ariannu yn unig oedd y BBC, a gwerth eu buddsoddiad tua'r un faint â ffynonellau masnachol. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae 80% o'r arian sy'n cael ei wario ar gynhyrchu rhaglenni plant ym Mhrydain yn dod o'r BBC.

4) Mae hyn yn creu pryderon am luosogrwydd. Mae buddsoddiad y BBC mewn rhaglenni plant yn werthfawr, ond 'all y BBC ddim gwneud popeth. Mae Ofcom wedi cydnabod pwysigrwydd lluosogrwydd - yn cynnwys yn y broses gomisiynu - fel ffordd o annog amrywiaeth a chystadleuaeth greadigol mewn rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus. Yn ei adolygiad ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, rhybuddiodd Ofcom:

"Mae peryglon mawr ynghlwm wrth adael darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus i'r BBC yn unig: gall diffyg cystadleuaeth mewn darlledu rhaglenni gwasanaeth cyhoeddus arwain at ddifaterwch, cynhyrchu aneffeithiol, diffyg arloesi, llai o raglenni o safon uchel, culni meddylfryd a cholli rhaglenni Gwasanaeth Cyhoeddus i rai grwpiau."[3]

5) Yn y papur Gwyn ar Adolygiad Siartr y BBC, dywedodd y llywodraeth: "Cred y llywodraeth fod cynnal lluosogrwydd o ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus sy'n cyd-fyw ac yn cystadlu gyda'i gilydd wedi bod yn bwysig wrth gynnal safonau ac amrywiaeth."[4]

Y potensial am sianel newydd i blant

6) Mae Pact felly yn croesawu ymrwymiad cryf S4C i raglenni plant o ansawdd uchel, wedi'u cynhyrchu'n lleol. Mae gan raglenni o'r fath rôl allweddol wrth ddatblygu hunaniaeth plentyn.

Mae rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu yn lleol yn gallu siarad yn uniongyrchol gyda phlant Prydain yn eu hieithwedd ddiwylliannol eu hunain, adlewyrchu eu bywydau a phrofiadau a'u helpu i ddeall y byd o'u cwmpas.

7) Rydyn ni hefyd yn croesawu, mewn egwyddor, y syniad o sianel benodol i blant. Gall hyn gynnig dewis real iawn, ar wahân i'r BBC, yn hybu lluosogrwydd ym maes rhaglenni plant.

8) Rydyn ni hefyd yn croesawu ymrwymiad S4C i gomisiynu o'r sector annibynnol, 'fydd yn cryfhau'r sector hwnnw. Mae hyn yn darparu ffynhonnell wahanol o raglenni, ar wahân i'r adrannau cynhyrchu sy gan y darlledwyr eu hunain. Mae gan gwmnïau cynhyrchu Cymreig, cwmnïau animeiddio yn enwedig, draddodiad cryf o ddarparu rhaglenni o safon uchel i S4C, yn ogystal â darlledwyr drwy Brydain a thu hwnt.

9) Rydyn ni'n cefnogi safbwynt Cadeirydd Grp Animeiddio Cymru pan ddywed fod sianel newydd arfaethedig S4C yn gyfle i ymateb i'r cynnydd yn y nifer o siaradwyr Cymraeg dan 15 oed, a hefyd yn gyfle i greu rhaglenni gwreiddiol yng Nghymru y gellir eu gweld drwy Brydain a thu hwnt.

10) Fodd bynnag, rydyn ni'n rhannu gofid Cadeirydd Grp Animeiddio Cymru y bydd adnoddau yn gyfyng a bod perygl y gallai cyllideb rhaglenni S4C gael ei wasgu'n ormodol, yn arwain at wasanaeth sy'n dibynnu ar brynu a dybio rhaglenni o dramor a chynyrchiadau gwreiddiol o safon isel. Byddem felly yn falch o dderbyn mwy o fanylion ynghylch ymrwymiad S4C i gynnyrch gwreiddiol lleol, o ran nifer a safon.

11) O adael i lefel buddsoddiad mewn rhaglenni sy'n cael eu cynhyrchu yma i leihau, gallai'r sianel newydd fod yn ddim mwy na fersiwn wedi'i dybio i'r Gymraeg o'r nifer cynyddol o wasanaethau masnachol sydd eisoes yn bod yn yr oes aml-sianel. Byddai rhaglenni gwir wreiddiol, wedi'u cynhyrchu yn lleol gan y sector annibynnol, yn gallu adlewyrchu byd plant lawer yn ddyfnach, a'u helpu i ddeall ac ymwneud â'u cymdeithas a'u diwylliant.

12) Mae cyfle yma i gofleidio'r dulliau newydd digidol o ddarparu gwasanaethau, tra'n creu cynnyrch arbennig sy'n siarad yr un iaith â phlant Cymru ar lefel sylfaenol iawn.

---

1 The Guardian, Mai 21 2007, tud. 9.

2 Ofcom and the Future of Children's Programming, Ofcom, cyflwyniad Gorffennaf 2007. Mae ymchwil Ofcom yn dangos cwymp mewn cyllido o tua 20% ar draws pob sianel, ond mae'u ffigurau yn cynnwys gwerth rhaglenni stoc ITV, a gafodd eu comisiynu cyn i ITV roi'r gorau i fuddsoddi mewn cynnyrch newydd tua 18 mis yn ôl. O gymryd y rhaglenni sydd eisoes wedi'u cynhyrchu allan, mae Pact yn amcangyfrif fod cyfanswm buddsoddiad yn y farchnad (h.y. y sector cynhyrchu) wedi disgyn gan 28% mewn termau real.
3 Review of Public Service Television Broadcasting, Phase 2, Ofcom, 5.13.

4 Charter Review White Paper, A public service for all: the BBC in the digital age, Mawrth 2006.